# Socialising day to day

## Going to the cinema

| | |
|---|---|
| Matt | Prynhawn da Siôn a Lucy. Hoffech chi fynd i'r sinema nos Sadwrn? |
| Lucy | O, hoffwn, dw i wrth fy modd yn mynd i'r sinema. |
| Siôn | A fi, dw i'n hoffi mynd i'r sinema. |
| Matt | Mae llawer o ffilmiau da yn y sinema ar hyn o bryd. Beth hoffech chi weld? Lucy, pa fath o ffilm hoffet ti weld? |
| Lucy | Hoffwn i weld ffilm arswyd. Dw i wrth fy modd yn gwylio ffilmiau arswyd. Maen nhw'n codi ofn arnaf i. |
| Matt | Ffilm arswyd? Mae ffilmiau arswyd yn wirion. Dw i ddim eisiau gweld ffilm arswyd. |
| Lucy | Wel, pa fath o ffilm hoffet ti weld 'te, Matt? |
| Matt | Hoffwn i weld ffilm gomedi. Dw i'n hoffi chwerthin. |
| Lucy | Iawn, dw i'n hapus i weld ffilm gomedi hefyd. Beth amdanat ti, Siôn? |
| Siôn | Ffilm gomedi ? Mae'n well gen i ffilmiau ffug-wyddonol fel Star Trek, Robocop a Captain America. Maen nhw'n hwyl! |
| Matt | Ffilm ffug-wyddonol? Beth wyt ti'n feddwl, Lucy? |
| Lucy | Dw i'n hapus i weld ffilm ffug-wyddonol. Wela i chi nos Sadwrn te. Hwyl! |


© Copyright 2015